# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**8 Mawrth 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, C Thomas, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Earnshaw | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts a P Roberts tap Salem, Cyng H N Evans cais grant y maes chwarae. |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.02.23 - Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng H N Evans yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Lon y Fynwent** – Nid yw'r gwaith wedi'i wneud. Bydd y Clerc yn atgoffa'r contractwr. |
| **4.2** | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Mae'r Clerc yn aros am ymateb i'r cais i'r Gymdeithas |
| **4.3** | **Tap mynwent Salem -** Mae'r Clerc wedi prynu casgen ddŵr a bydd yn trefnu i'w gosod yn ei lle. |
| **4.4** | **Hysbysffwrdd -** Mae'r hysbysfwrdd bellach yn ei le. Cytunwyd bod y Clerc yn prynu allweddi ychwanegol. |
| **4.5** | **Cysgodfan Bws Engedi -** Dywedodd y Clerc y byddai'r cais cynllunio yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Ebrill o'r pwyllgor cynllunio. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod tarmac ar y safle pan fydd yn gwneud cais am drwydded gwaith stryd. |
| **4.6** | **Wal mynwent Llanbeulan -** Mae'r Clerc wedi gofyn i gontractwr am bris ond roedd y contractwr yn ansicr pa ran o'r wal oedd angen ei thrwsio. Cynigiodd y Cyng H N Evans fynd gyda'r contractwr i'r safle. |
| **4.7** | **Coroniad y Brenin** – Cytunwyd i dynnu'r eitem oddi ar yr agenda |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 12.04.23 |

| | |
|---|---|
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu cyfarfod diwethaf Cynghrair Crigyll. Mae'r Gynghrair yn ystyried cynnig grantiau at ddefnydd cymunedol. Diolchodd y Cyng H N Evans i'r Cadeirydd am fynychu. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ngwalchmai |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Emlyn Williams - Darllenwyd e-bost gan Mr Williams ynghylch prosiect yn ymwneud â thrin dŵr llygredig - dŵr gwastraff ac amaethyddol - gan ddefnyddio amrywiaeth o Wlyptiroedd Triniaeth.<br>Cytunwyd i beidio â gwneud sylw ar y prosiect nes bod cais cynllunio ffurfiol wedi'i wneud. |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| | Dim |
| | |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd I dalu y canlynol: |
| **9.1** | Unllais Cymru £161.00 (aelodaeth 2023/24) |
| **9.2** | G Owen £25.33 (butt – gweler 4.3) |
| **9.3** | Rhoddion: y Rhwyd £100.00, Hospis Dewi Sant £100.00 |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Dim |
| | |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 12.04.23 |